

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

<b>CYFARFOD :</b>	CYNGOR SIR
<b>DYDDIAD :</b>	8 RHAGFYR 2011
<b>TEITL YR ADRODDIAD :</b>	PWYLLGOR SAFONAU NEWYDD - 2011
<b>ADRODDIAD GAN :</b>	Y SWYDDOG MONITRO
<b>SWYDDOG CYSWLLT :</b>	MEIRION JONES (est 2563)
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD :</b>	PENODI PWYLLGOR SAFONAU NEWYDD

### CEFNDIR

1. Dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006) rhaid i'r Cyngor fod â Phwyllgor Safonau gyda dim llai na phump a dim mwy na naw o Aelodau.
2. Fe wnaeth y Cyngor hwn, wrth adolygu strwythur y Pwyllgor Safonau, dynnu Cyngorwyr Sir oddi ar y Pwyllgor Safonau ond yn dilyn Cyfarwyddyd y Gweinidog, fe gawsant eu hadfer. Ar y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd fe geir pum aelod annibynnol / lleyg, un Aelod o'r Cyngorau Tref / Cymuned a thri Chynghorydd Sirol. Y tri Chynghorydd yw Trefor Lloyd Hughes, J Arwel Roberts ac Ieuan Williams.
3. Bydd tymor y pum Aelod annibynnol / lleyg a'r Cyngorydd Tref / Cymuned presennol sydd ar y Pwyllgor Safonau yn dod i ben ar 17 Rhagfyr 2011. Bydd angen i'r apwyntiadau newydd fod yn weithredol o 18 Rhagfyr 2011.
4. Rhaid i o leiaf un Aelod o'r Pwyllgor Safonau fod yn Gynghorydd Tref neu Gymuned y mae'n rhaid i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ei enwebu ar y cyd. Rhaid i'r Aelodau Annibynnol gael eu hapwyntio gan y Cyngor.
5. Penderfynodd y Cyngor Sir ar 12 Mai 2011 i gefnogi argymhellion y Comisiynwyr i Weinidogion Cymru i ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor drwy godi nifer cynrychiolwyr y Cyngorau Tref/Cymuned ar y Pwyllgor Safonau i ddau ac i roi'r awdurdod i'r swyddogion wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad a hefyd i argymhell bod aelodaeth y Pwyllgor Safonau o 18 Rhagfyr 2011 ymlaen yn cynnwys dau Gynghorydd Sir, pum Aelod Annibynnol a dau Gynghorydd Tref/Cymuned. Rhoes y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant, ei ganiatâd i'r newidiadau hyn i'r Cyfansoddiad ar 20 Tachwedd 2011.
6. Mae holl Aelodau Annibynnol presennol y Pwyllgor Safonau yn dal y swydd am bedair blynedd. Roedd holl Aelodau annibynnol/lleyg cyfredol y Pwyllgor Safonau ac eithrio'r Cadeirydd, Jeff Cotterrell, yn gymwys i ymgeisio am un cyfnod arall, ond ni phenderfynodd yr un ohonynt wneud hynny.

7. Dywed y Rheoliadau y bydd raid cydymffurfio gyda'r broses ddewis statudol wrth benodi'r Aelodau Annibynnol. Cychwynnodd y broses honno gyda sefydlu Panel Dewis gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 12 Mai 2011. Penododd y Cyngor dri Chynghorydd Sir i wasanaethu ar y Panel sef y Cynghorydd W J Chorlton, y Cynghorydd Bryan Owen a'r Cynghorydd Bob Parry. Rhoes y Cyngor awdurdod i "Unllais Cymru" ddewis Cynghorydd Tref/Cymuned i wasanaethu ar y Panel Dewis a phenodwyd y Cynghorydd Tref Dan Jones o Gyngor Tref Biwmares.
8. Yn unol â'r Rheoliadau hefyd rhaid penodi person annibynnol i wasanaethu ar y Panel Dewis. Dirprwywyd y broses ddethol honno gan y Cyngor i Banel o Swyddogion ac yn dilyn hysbysebu a chael ceisiadau ysgrifenedig, penododd y Panel hwnnw Ms Gillian Richards fel yr Aelod Lleyg ar y Pwyllgor Safonau.
9. Lluniodd y Panel feini prawf ar gyfer dewis Aelodau Annibynnol newydd. Cafodd y seddi gweigion eu cyhoeddi mewn hysbysebion yn y wasg leol yn gwahodd ceisiadau ysgrifenedig oddi wrth aelodau'r cyhoedd a oedd yn dymuno cael eu hystyried i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau. Cafodd pecyn gwybodaeth a ffurflen gais a gymeradwywyd gan y Panel eu hanfon i'r rheiny a fynegodd ddiddordeb.
10. Cyfarfu'r Panel i ystyried y ceisiadau a dderbyniwyd gan gytuno ar y rhai a fyddai'n cael gwahoddiad i gyfweliad. Derbyniodd y Cyngor wyth cais i gyd a phenderfynodd y Panel wahodd chwech ymgeisydd am gyfweliad. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar 23 Tachwedd 2011.
11. Ar 23 Tachwedd 2011, dewisodd y Panel bum ymgeisydd ac mae yn awr yn dymuno eu henwebu i'r Cyngor ar gyfer eu penodi i'r Pwyllgor Safonau newydd.
12. Mae'r ymgeiswyr wedi cael gwybod am benderfyniad y Panel ac wedi cadarnhau ar bapur eu bod yn derbyn pob enwebiad.
13. Yn ogystal, gofynnwyd i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned enwebu ar y cyd dau Gynghorydd Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Safonau newydd. Cytunwyd ar yr enwebiadau hynny mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2011.
14. Gan fod nifer y Cynghorwyr Sir ar y Pwyllgor Safonau yn cael ei ostwng o dri i ddau o 18 Rhagfyr 2011, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud y ddau benodiad hynny.
15. Yn olaf, gofynnir i'r Cyngor ystyried rhinweddau cadw Panel Dewis y Pwyllgor Safonau er mwyn penodi i unrhyw swyddi gweigion achlysurol a allai godi. Gyda chaniatâd y Cyngor Sir, mae Aelodau'r Panel Dewis wedi cytuno i'r cynnig hwn ond gyda'r posibilrwydd y bydd rhaid efallai benodi aelodau etholedig newydd gan gynnwys cynrychiolydd y Cynghorau Tref/Cymuned, yn dilyn yr etholiadau lleol.

## **ARGYMHELLION**

1. O 18 Rhagfyr 2011, hyd 17 Rhagfyr 2015, bod y Cyngor yn penodi'r Aelodau Annibynnol isod i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau:

Mrs Denise Harris-Edwards

Mr Islwyn Jones

Mr Leslie Lord

Mrs Dilys Shaw

Mr Michael Wilson

2. Bod y Cyngor yn penodi'r Cyngorydd W Raymond Evans o Gyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog a'r Cyngorydd John Roberts o Gyngor Gymuned Llanfairpwll fel dau gynrychiolydd y Cyngorau Tref/Cymuned ar y Pwyllgor Safonau a hynny o 18 Rhagfyr 2011 hyd 17 Rhagfyr 2015 neu am y cyfnod hyd at etholiadau arferol y Cyngor Cymuned y mae'r Cyngorydd Cymuned yn aelod ohono p'un bynnag yw'r cyfnod byrraf.
3. Gofynir i'r Cyngor benodi dau Gyngorydd Sir ar y Pwyllgor Safonau a hynny o 18 Rhagfyr 2011 hyd 17 Rhagfyr 2015 neu am y cyfnod hyd at etholiadau arferol nesaf Cyngor Sir Ynys Môn yn dilyn penodiad y person hwnnw p'un bynnag yw'r cyfnod byrraf. (Mae'r aelodau cyfredol yn cael eu henwi ym mharagraff 2 o'r Adroddiad hwn).
4. Cadw'r Panel Dewis i bwrpas llenwi unrhyw seddi gweigion achlysurol a all godi hyd oni fydd Panel newydd yn cael ei sefydlu yn 2015.